
Siarter Gofal Preswyl UNISON



Mae nifer o weithwyr gofal preswyl yn cael eu talu'n wael a'u trin yn wael. Felly maent yn ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd a darparu gofal o safon o fewn system sydd mewn argyfwng. Ac eto mae eu rôl yn allweddol er mwyn i gymdeithas waraidd weithredu.

Mae UNISON, y cynrychiolydd blaenllaw ar gyfer gweithwyr gofal yn y Deyrnas Unedig, yn ymgyrchu ar gyfer safonau gofal uwch ar draws yr holl leoliadau preswyl. Rhaid i urddas a chyfiawnder fod yn ganolog i system ofal. Mae pawb mewn gofal preswyl yn haeddu cael eu cefnogi a gofalu amdanynt yn briodol – waeth pa mor gyfoethog ydynt, beth yw eu hoed neu eu hanabledd. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i ni werthfawrogi gweithwyr gofal.

Daeth gweithwyr gofal preswyl ar draws y Deyrnas Unedig ynghyd i drafod y rhwystrau sy'n bla ar eu sector a'r atebion fyddai'n eu galluogi i ddarparu gofal urddasol.

Siarter Gofal Preswyl UNISON yw canlyniad y drafodaeth hon. Mae'n sefydlu'r safonau gofynnol ac amodau cyflogaeth sydd eu hangen i ddarparu gofal gweddus. Mae lefelau cyflogaeth, cyflogau, amodau a hyfforddiant yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd gofal. Mae gweithlu mwy sefydlog, parod yn allweddol i gyflawni gofal cyson, o ansawdd uchel.

Mae gweithwyr gofal yn annog cynghorau, comisiynwyr a darparwyr yn y sector gwirfoddol a phreifat i fabwysiadu'r Siarter Gofal Preswyl, sy'n sefydlu datrysiadau i godi ansawdd gofal.

Bydd UNISON yn ymgyrchu i benderfynyddion fabwysiadu'r Siarter ac yn parhau i alw am gyllid digonol ar gyfer gofal cymdeithasol.

UNSAIN
Cymru Wales

Siarter Gofal Preswyl UNISON

Diogelu a chefnogi preswylwyr

- Bydd cyflogwyr yn cynnal cyfraddau staffio digonol, sy'n galluogi darpariaeth gofal o ansawdd. Rhaid i hyn fod yn ofal sy'n ymestyn tu hwnt i'r tasgau sylfaenol ac yn cynnwys dimensiwn cymdeithasol.
- Rhaid i weithwyr gofal, preswylwyr a theuluoedd gael gwybodaeth ar sut i fynegi pryderon a chael eu hamddiffyn os byddant yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol.
- Bydd gan gyflogwyr weithdrefnau clir ac atebol i fynd ar drywydd unrhyw bryderon a godir.
- Bydd darparwyr cartrefi gofal yn sicrhau fod gan yr holl breswylwyr fynediad parod at unrhyw wasanaethau GIG gofynnol.
- Bydd darparwyr yn cyflawni asesiadau risg trylwyr i sicrhau diogelwch preswylwyr a gweithwyr gofal.
- Bydd cyflogwyr yn darparu amgylchedd diogel i weithwyr gofal.
- Bydd gweithwyr gofal yn cael amser i ddarparu gweithgareddau rheolaidd a mathau effeithiol o therapi i breswylwyr.

Hyfforddiant a chefnogaeth i gyflogeion

- Bydd yr holl weithwyr gofal – yn cynnwys staff banc a chyflenwi – yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ar anghenion yr holl breswylwyr, fel y sefydlwyd yn eu cynlluniau gofal.
- Bydd anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni. Rhaid i hyfforddiant fod am ddim a'i gyflawni yn ystod amser gwaith, er mwyn trefnu staff cyflenwi.
- Fe ddefnyddir dysgu trwy DVD ac electronig i ategu dysgu wyneb yn wyneb o ansawdd uchel.

Cyflog gweddus ar gyfer gwaith o ansawdd

- Bydd yr holl weithwyr gofal preswyl yn cael eu talu o leiaf y Cyflog Byw – fel y cyfrifir gan y Sefydliad Cyflog Byw neu Awdurdod Llundain Fwyaf pob mis Tachwedd.
- Dylai cynghorau sy'n defnyddio cyflogeion ar gontractau allanol ar neu uwchlaw'r Cyflog Byw sicrhau ei bod yn ofynnol i ddarparwyr newydd gynnal lefelau cyflogau trwy gydol y contract.
- Gwneir taliadau atodol am weithio oriau anghymdeithasol, yn cynnwys penwythnosau a Gŵyl y Banc.
- Rhaid i gyflogau ar gyfer cysgu i mewn fod ar lefel i sicrhau nad yw'r gyfradd fesul awr gyfartalog yn gostwng islaw'r Cyflog Byw.
- Rhaid hefyd talu cyfnodau gwyliau fel petai'r cyflogai yn y gwaith.
- Bydd yr holl weithwyr gofal yn derbyn tâl salwch galwedigaethol.
- Bydd cyflogwyr yn talu am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Amser i ofalu

- Ni fydd contractau dim oriau yn cael eu defnyddio.
- Bydd gweithwyr gofal yn cael egwyliau digonol yn ystod eu diwrnod gwaith.
- Bydd gweithwyr gofal yn cael eu talu am yr amser a gymer i gyflawni trosglwyddiad digonol rhwng shifftiau, sy'n sicrhau diogelwch a gofal cyson i breswylwyr.
- Bydd rotâu yn cael eu cynllunio ymhell o flaen llaw i sicrhau lefelau staffio digonol ac i ganiatáu ar gyfer amser i ffwrdd a gynlluniwyd ar gyfer cyflogeion.

Rhan o'r undeb

- Bydd cyflogwyr yn cydnabod UNISON – gan drafod cyflogau ac amodau gyda nhw ac yn annog cyflogeion i ymuno â nhw.
- Bydd cynrychiolwyr UNISON yn cael amser cyflogedig digonol ar gyfer yr hyfforddiant gofynnol.
- Bydd cyflogwyr yn darparu cyfleoedd i UNISON gwrdd ag aelodau a chyflogeion fel fo angen.




Ddim yn UNISON?
Ymunwch heddiw yn **joinunison.org**
neu ffonio **0800 171 2193**



Cyhoeddwyd gan UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY.
CU/Ionawr 2018/24268/3740

UNISON'S **Residential Care Charter**



Many residential care workers are poorly paid and poorly treated. So they struggle to make ends meet and struggle to provide quality care within a system in crisis. Yet their role is crucial for a civilised society to function.

UNISON, the leading representative for care workers in the UK, is campaigning for higher standards of care across all residential settings. Dignity and justice must be at the heart of a care system. Everyone in residential care deserves to be supported and properly looked after – irrespective of their wealth, age or disability. For this to happen, care workers must be valued.

Residential care workers across the UK came together to discuss the barriers that plague their sector and solutions that would enable them to provide dignified care.

UNISON's Residential Care Charter is the outcome of this discussion. It sets out the minimum standards and employment conditions required to deliver decent care. Employment levels, pay, conditions and training directly impact the quality of care. A more stable, well-equipped workforce is essential to deliver high quality, consistent care.

Care workers urge councils, commissioners and providers in the voluntary and private sector to adopt the Residential Care Charter, which sets out solutions to raise the standard of care.

UNISON will campaign for decision makers to adopt the Charter and continue to call for adequate funding for social care.

UNISON
the public service union

UNISON'S **Residential Care Charter**

Protecting and supporting residents

- Employers will maintain adequate staff ratios, that enable quality care to be delivered. This must be care that extends beyond basic tasks and includes a social dimension.
- Care workers, residents and families must be given information about how to raise concerns and protection if they decide it is necessary.
- Employers will have clear and accountable procedures to follow up any concerns raised.
- Care home providers will ensure all residents have ready access to any NHS services required.
- Providers will carry out thorough risk assessments to ensure the safety of residents and care workers.
- Employers will provide care workers with safe equipment.
- Care workers will be given time to provide regular activities and effective forms of therapy for residents.

Training and support for employees

- All care workers – including bank and relief staff – will be regularly trained to meet the needs of all residents, as set out in their care plans.
- Training requirements will be met. Training must be free and carried out in work time, so cover staff must be arranged.
- DVD and e-learning will be used to complement high quality, face-to-face learning.

Decent pay for quality work

- All residential care workers will be paid at least the Living Wage – as calculated by the Living Wage Foundation or Greater London Authority every November.
- Councils which outsource employees on or above the Living Wage should ensure that new providers are required to maintain pay levels throughout the contract.
- Extra payment will be made for working unsocial hours, including weekends and Bank Holidays.
- Pay for sleep-ins must be at a level to ensure that the average hourly rate does not drop below the Living Wage.
- Holiday periods must also be paid as if at work.
- All care workers will be paid occupational sick pay.
- Employers will pay for Disclosure and Barring Service checks.

Time to care

- Zero hours contracts will not be used.
- Care workers will be given adequate breaks during their working day.
- Care workers will be paid for the time it takes to carry out a proper handover between shifts, which ensures safety and continuity of care for residents.
- Rotas will be planned well in advance to ensure adequate staffing levels and allow planned, time off for employees.

Part of the union

- Employers will recognise UNISON – negotiating pay and conditions with them and encouraging employees to join them.
- UNISON representatives will be given adequate paid time for the required training.
- Employers will provides opportunities for UNISON to meet members and employees as necessary.



Not in UNISON?
Join today at **joinunison.org**
or call **0800 171 2193**



Published and printed by UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, London NW1 2AY.
CU/January 2018/24268/3740